Gweiddi

# Tasg 1

**(Craidd, sbardun 2)**

Darllenwch y darnau eto a llenwch y tabl.

| **Cwestiwn** | **Ateb** |
|---|---|
| 1. Am faint o amser roedd ysgol gylchynol yn aros mewn ardal? | |
| 2. Ar ba adeg o'r flwyddyn roedd yr ysgolion yn dod i ardal, fel arfer? | |
| 3. Beth roedd pawb yn ei ddysgu'n gyntaf? | |
| 4. Beth oedd yn digwydd i'r athro ar ôl tri mis? | |
| 5. Pwy sefydlodd yr ysgolion cylchynol? | |
| 6. Pam roedd *(ateb rhif 5)* eisiau i blant ac oedolion ddysgu darllen? | |

7. Faint o bobl ddysgodd ddarllen yn yr ysgolion cylchynol? Dewiswch yr ateb cywir.

a) 2,500
b) 25,000
c) 250,000
ch) 2,500,000

8. Darllenwch y paragraff hwn eto:

> Felly, i ffwrdd â Thomas Jones i'r eglwys i'r dosbarth darllen. Roedd dros dri deg o bobl yno – yn blant ac oedolion. Roedd eglwys yn oer a phawb yn rhynnu yn eu dillad carpiog. Ond eto, roedd pawb yn frwd iawn eisiau dysgu darllen.

Tanlinellwch y gair sy'n golygu 'awyddus'.

9. Dychmygwch mai chi yw Thomas Jones. Ysgrifennwch lythyr byr yn diolch i Griffith Jones am y cyfle i ddysgu darllen mewn ysgol gylchynol.

Gallwch gynnwys y pwyntiau canlynol:

- pam roeddech chi eisiau dysgu darllen
- sut un oedd yr athro
- disgrifio proses dysgu darllen
- sut mae eich bywyd wedi newid